

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

4/9/2018

Presennol: Alwyn E Jones (Cadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Rhodri Jones, Lindsey Ellis-Edwards, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol)

1902 Wrth groesawu aelodau yn ôl wedi cyfnod yr haf, llongyfarchod y Cadeirydd ar ran y Cyngor cyfan pawb a oedd wedi sefyll arholiadau allanol a dymunodd yn dda iddynt yn y dyfodol. Llongyfarchwyd hefyd pawb a fu'n ymwneud a threfnu'r Wyl lwyddiannus iawn y penwythnos diwethaf.

1903 Buddiant: Nid oedd datganiadau o fuddiant mewn mater ar yr Agenda.

1904 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 3ydd, 2018.

1905 Adroddiad y Clerc :

1893i Derbyniwyd neges y byddai pensaer yn archwilio cyflwr Eglwys Deiniol Sant a'r Porth yr wythnos hon ar ran y perchnogion, yr Eglwys yng Nghymru.

1893ii Cytunwyd i ymaelodu a'r ICO.

1895 Cytunodd Swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri i drefnu cyfarfod safle i drafod llwybrau ac i gynnwys tîrfeddianwyr yn y trefniant.

Derbyniwyd ymateb i sylwadau'r Cyngor ar brinder y Gymraeg yn yr Wyl Drafnidiaeth, a rhoddodd Cadeirydd yr Wyl sicrwydd y byddai'r iaith yn cael dyledus barch yn y dyfodol.

1906 Cyngor Gwynedd: Dywedodd y Cyngorydd Sir, Alan Jones Evans, ei fod yn disgwyl i'r 20mya rhwng pont y Ddyfrdwy yn y pentref a'r gyffordd ddod i rym yn fuan. Mae ail-osod arwydd 40mya wrth gyffordd Stryd Dŵr mewn llaw. Atgoffodd y Swyddogion fod angen torri'r gwair ar ffordd Erw'r Fron ac mae hynny wedi ei gyflawni erbyn hyn. Dywedodd hefyd ei fod wedi tynnu sylw swyddogion Cynefin at faterion yn ardal Maesypandy ac fe fydd yn cyfarfod swyddogion yn fuan i ystyried problemau parcio yno. Diolchwyd iddo am ei waith.

1907 Materion Eiddo'r Cyngor:

- i. Dywedodd Karl Jones fod mater dyfynbrisiau ar gyfer uwchraddio'r Toiledau mewn llaw. Rhoddwyd yr hawl i Karl Jones weithredu ar ran y Cyngor i bwrpas gwneud cais am grant.
Diolchodd y Cyngorwyr i Aled Richards am ymateb yn effeithiol i sefyllfa o frys gyda'r carthffosiaeth yn ddiweddar.
- ii. Adroddodd Alwyn E Jones fod Is-bwyllgor y Fynwent wedi cyfarfod a bod Swyddog y Fynwent yn trefnu cyfarfod pellach gydag arbenigwyr yn bresennol hefyd er mwyn

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

trafod manylion creu mynwent lawnt. Cytunwyd i roi hysbyseb o fwriad yn Y Cyfnod ar fater creu mynwent lawnt.

- iii. Is Bwyllgor Paneli Gwybodaeth: dywedodd Huw Antur bod yr is-bwyllgor yn cyfarfod y mis hwn.

1908 Materion ariannol: Derbyniwyd adroddiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol (e-bost). Derbyniwyd ail daliad y Praesept.

Gofynnwyd i'r Swyddog Ariannol drefnu cyfarfod yn yr wythnosau nesaf o'r Is-bwyllgor Cyllid.

1909 Hyfforddiant: Ystyriwyd y Rhaglen Hyfforddi a gynigir gan Un Llais Cymru. Cytunwyd i gomisiynu hyfforddiant ar Fodiwl 12 "Cynllunio Cymunedol" ar gyfer pob aelod o'r Cyngor, a'i gynnal ar nos Fawrth Tachwedd 6ed. Cytunwyd i holi a fyddai'r Ysgoldy ar gael. Cytunodd y Cynghorwyr i holi trigolion y gymuned ymlaen llaw i ganfod syniadau y gall y Cyngor eu hyrwyddo i ddatblygu'r gymuned.

1910 Y Cyfnod: Cafwyd trafodaeth ar fater Gohebydd Lleol a chynigwyd enwau ar gyfer creu tîm o ohebwy. Cytunodd Huw Antur i gysylltu gyda nhw.

1911 Materion lleol: Cytunodd Alan Jones Evans i holi am osod bin baw ci yn ardal y Llan o'r pentref; mae'r angen wedi amlygu ei hun yn fwy gyda mwy o ddefnydd o Lwybr Tegid a Llwybr y Cei.

1912 Partneriaeth Penllyn: mae gwaith mewn llaw ond nid oedd adroddiad ffurfiol.

1913 Gohebiaeth:

- i. Ceisiadau Cynllunio – cadarnhawyd y ceisiadau a gymeradwywyd gan y Cynghorwyr yn ystod yr haf.
- ii. Nodwyd derbyn Adroddiad Blynyddol Cynefin.
- iii. Cafwyd trafodaeth ar yr Ymgynghoriad y mae Liz Saville Roberts yn ei gynnal ar hedfan isel a chytunwyd i'w gefnogi trwy lythyr.
- iv. Nodwyd derbyn Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd a Môn).
- v. Nodwyd derbyn Dogfen Ymgynghori Cynllun Eryri Parc Cenedlaethol Eryri.
- vi. Nodwyd fod dyddiadau cyfarfodydd cyswllt Parc/Cynghorau Cymuned wedi dod i law.
- vii. Cafwyd trafodaeth ar y nifer fawr o sylwadau negyddol am anhwylystod yn sgil cau ffyrdd yn ystod penwythnos yng Ngorffennaf. Cytunodd y Cadeirydd i fynegi'r sylwadau hyn mewn cyfarfod gyda'r trefnwyr ar 12/9/18.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 2/10/18

Amser gorffen: 8.50pm